



**Cyfarfod Bwrdd CHC
Dydd Iau 11 Ebrill 2019
Swyddfa CHC, Caerdydd**

Cyfarfu Bwrdd CHC ar 11 Ebrill 2019 yn swyddfa CHC, Caerdydd. Roedd cworwm yn y cyfarfod gyda 11 aelod bwrdd yn bresennol, yn ogystal ag aelodau o Uwch Grŵp Rheoli CHC. Roedd y rhai'n bresennol yn cynnwys: Andrew Bowden (Cartrefi Conwy), Debbie Green (Tai Coastal), Steve Higginson (Tai Sir Fynwy), Jonathan Huish (Trivallis), Paula Kennedy (Cartrefi Melin), Andrew Martyn-Johns (Annibynnol - Cadeirydd), Kath Palmer (Cadwyn), Paul Roberts (Newydd), Scott Sanders (Linc-Cymru), Andrew Vye (Grŵp Pobl), a Sian Thomas (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf).

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Matt Brown (WCVA).

Mae'r dilynol yn grynodedb o'r eitemau a drafodwyd a'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd yn y cyfarfod.

Cynllun Archwilio a chanfyddiadau archwiliad interim 2018/2019: Rhoddodd cynrychiolydd o Bevan & Buckland drosolwg o'r archwiliad interim ac amlinellu'r broses gynllunio ar gyfer yr archwiliad ym mis Mehefin. **Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y dull cynllunio ar gyfer yr archwiliad a nodwyd canfyddiadau'r archwiliad interim.**

Ymateb CHC i'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy: Cyflwynwyd diweddariad i'r Bwrdd ar waith CHC ar yr Adolygiad o Dai Fforddiadwy. Trafododd y bwrdd hyn a sut y gallent gefnogi CHC yn eu hymateb i'r adolygiad.

Datblygu cynnig tryloywder: Cyflwynwyd cynnig i'r bwrdd yn amlinellu sut gallai CHC roi cefnogaeth well i dryloywder o fewn y sector.

Datblygu ein capasiti dylanwadu ac ymgyrchu: Cyflwynodd yr Uwch Dîm Rheoli gynnis i ailstrwythuro strwythur staffio y tîm polisi a materion cyhoeddus presennol. Amlinellodd yr adroddiad y rhesymeg, manylion y newidiadau a gynigir a'r goblygiadau i'r gyllideb, ffyrdd arfaethedig o weithio i gefnogi'r strwythur a'r camau nesaf. **Canlyniad: Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig i ailstrwythuro.**

Map Rhanddeiliaid: Adolygodd y bwrdd y gwaith mapio rhanddeiliaid a wnaed gan staff CHC a thrafod y meysydd ar gyfer ffocws blaenoriaeth. Bydd y bwrdd yn parhau â'r drafodaeth hon yng nghyfarfod cwrdd i ffwrdd y bwrdd ym mis Gorffennaf, gan ganolbwyntio ar dactegau a strategaeth i feithrin perthynas gref gyda phartneriaid.

Agenda Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd: Adolygodd y bwrdd rai meysydd trafod a awgrymwyd ar gyfer eu diwrnod cwrdd i ffwrdd ym mis Gorffennaf a chytuno ar restr o eitemau agenda.

Diweddariad Uwch Grŵp Rheoli: Rhoddodd Phillipa Knowles ddiweddariad ar recriwtio, gan ddweud i swydd Swyddog Creadigol Dylunio a Brand gael ei llenwi a hefyd y swydd Cymhorthydd Gweinyddol ac y byddai'r ymgeiswyr llwyddiannus yn cychwyn ar eu swyddi yn wythnosau gyntaf mis Mai.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 16 Mai 2019.